Dylunio â Chlai

Gweithgaredd sy'n annog gweithio fel tîm yw hwn, gan gymryd tro a gwneud penderfyniadau.

Deunyddiau:

- Clai modelu lliw.
- Chwiban.

Sut:

Mae pawb yn cael clai modelu o wahanol liw.

Mae'r athro cyswllt yn gweiddi enw gwrthrych neu olygfa; e.e. mochyn, goleudy, blodyn haul ac ati.

Ar yr alwad "ewch", mae'r person cyntaf yn dechrau adeiladu. Pan fydd y chwiban yn cael ei chwythu, mae'n rhaid iddyn nhw ei basio i'r un nesaf sy'n ychwanegu ato â'i glai (sydd o liw gwahanol).

Pan fydd yr athro'n dweud "stopiwch" mae'r cerflun yn cael ei roi i lawr fel bod pawb yn gallu gweld y canlyniad terfynol, a chreu stori amdano os ydynt yn dymuno felly.

Mae'n bosibl gwneud hyn cymaint o weithiau ag maen nhw eisiau ac mae'r athro'n cael chwythu ei chwiban cymaint o weithiau ag mae yntau eisiau ar unrhyw adeg.

Pwyntiau trafod

- Sut deimlad oedd gweld rhywun yn cael mwy o amser i greu'r cerflun?
- A oedd cael rhywun yn rheoli natur neu hyd eich mewnbwn yn ei gwneud hi'n haws gweithio fel tîm, ynteu'n anoddach?
- A fyddai'n haws gweithio'n unigol ar gerflun unigol?
- A wnaeth unrhywun geisio cymryd yr awenau trwy weiddi cyfarwyddiadau?

Addasiadau

Caniatáu i'r person cyntaf benderfynu beth fydd y cerflun heb roi gwybod i weddill y grŵp a gweld a yw'r cerflun terfynol yn debyg i'r syniadau gwreiddiol.

Mae'n bosibl defnyddio hyn i ddwyn sylw at beth sy'n digwydd os nad yw cynghorau ysgol yn trafod prosiectau'n briodol yn y lle cyntaf.

Cael darn mawr o bapur, a phawb yn cael tro (wrth ymateb i'r chwiban) i ychwanegu at y darn o gelf a gweld a yw'n troi allan fel y dymuniad/ syniad gwreiddiol.